# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **7 Mai 2014**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Gloria Tanner | Adran Etholiadol: | Mynydd-bach |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

* Cynhaliais gymorthfeydd bob 3 wythnos yn Neuadd Gyhoeddus Treboeth a Chanolfan Gymunedol y Clâs.
* Euthum i gyfarfodydd PACT bob mis.
* Cyfarfodydd rheolaidd â phreswylwyr llety lloches Llys Penrhiw, y Clâs.
* Cyfarfodydd chwarterol â'r heddlu yng Ngorsaf Heddlu Penlan.
* Cyfarfodydd llywodraethwyr ysgol yn Ysgol Gynradd y Clâs.
* Cyfarfodydd chwarterol â Phwyllgor Rheoli Cymuned y Clâs.
* Cyfarfodydd rheolaidd â Cymunedau'n Gyntaf yng Nghanolfan Gymunedol y Clâs.
* Gweithiais gyda Cymunedau'n Gyntaf ar brosiectau'r dyfodol megis lleoedd chwarae yn y Clâs ac ar brosiect ceffylau.
* Gweithiais yn agos gyda PCSO ar Ddiogelwch Ffyrdd a beiciau oddi ar y ffordd.
* Cynhaliais ymweliadau safle rheolaidd i fonitro tipio anghyfreithlon, sbwriel a thyllau yn y ffordd.
* Gweithiais gyda swyddogion y cyngor i sicrhau bod safleoedd busnes yn cael eu cadw mewn cyflwr da.

## Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 2 | 7 | / | 12 | 58 | % |
| Y cyngor | 12 | / | 15 | 80 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 3 | / | 8 | 38 | % |
| Pwyllgor Cydraddoldeb | 1 | / | 3 | 33 | % |
| Pwyllgor Perfformiad a Chyflwyno | 2 | / | 3 | 67 | % |
| Panel yr Ymddiriedolwyr | 1 | / | 5 | 20 | % |
| CYFFREDINOL | 26 | / | 46 | 57 | % |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd

Aelod o'r paneli craffu canlynol:

Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
Mewnfuddsoddi
Gofal Cymdeithasol
Aelod o gorff allanol - Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe (CGGA)
Aelod o'r Rhestr Dyrannu Tai Sengl

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Gweithgor Cludiant Cyhoeddus
Ymgyrch Benthyciadau Diwrnod Talu
Banc Bwyd Dwyrain Abertawe - Gwirfoddolwr

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Mae gennyf 26 blynedd o brofiad o helpu pobl trwy eu cynrychioli yn ystod fy ngyrfa fel gwas sifil a swyddog undeb llafur.

Euthum i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

25/10/2013 - Magu Plant Corfforaethol
17/10/2013 - Deallusrwydd Emosiynol
14/10/2013 - Cyn-benderfynu

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Mae gennyf brofiad helaeth o gynrychioli pobl gyda phroblemau unigol, personol a phroblemau gwaith.
Lles preswylwyr yn fy ward, sef Mynydd-bach, sy'n cael fy sylw pennaf.

Bob dydd, ymdriniais ag ymholiadau ffôn a negeseuon e-bost pobl a oedd yn gofyn am fy nghymorth. Yn aml, ymwelais â nhw yn eu cartrefi ar ôl cael gwahoddiad. Ar rai achlysuron, byddai preswylwyr yn ymweld â fi yn fy nghartref am breifatrwydd. Rwy'n un o denantiaid y cyngor ac, yn aml, eu problemau nhw yw fy rhai innau hefyd. Mae tenantiaid y cyngor yn gwerthfawrogi hyn ac yn tueddu i siarad â fi'n amlach na chynghorwyr eraill yn y ward.

Wrth ymdrin â phryderon unigol, rwyf bob amser yn defnyddio e-bost gan ei fod yn fwy proffesiynol ac yn rhoi llwybr papur o benderfyniadau a gweithredoedd.

Rwy'n gwneud pob ymdrech i roi gwybod i breswylwyr am y datblygiadau diweddaraf. Os nad wy'n siŵr, rwy'n sicrhau fy mod yn siarad â'r adrannau perthnasol i sicrhau bod preswylwyr yn cael yr wybodaeth gywir.

Rwy'n gwarantu 'cyfrinachedd' ar bob adeg wrth ymdrin â phreswylwyr a chydnabyddir fy mod yn ddibynadwy ac yn fodlon mynd gam ymhellach ar eu rhan.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog sylfaenol - £13,175 y flwyddyn.

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 3 Gorffennaf 2014 |